**Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2019 yn y Pencadlys Tân ac Achub, Parc Busnes Llanelwy**

**Yn bresennol**
Julia Hughes (Cadeirydd)
Sally Ellis
Gill Murgatroyd
Gareth Pritchard
Y Cynghorydd Dylan Rees, Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cynghorydd Owen Thomas, Cyngor Sir y Fflint

Gareth Owens, Dirprwy Glerc
Matt Georgiou, Cyngor Sir y Fflint
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt yr Aelodau

**Ymddiheuriadau**
Antony P Young

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau newydd i'r cyfarfod a gofynnodd i bawb gyflwyno eu hunain.

1 DATGANIADAU O FUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 HYSBYSIAD O FATERION BRYS

2.1 Dim.

3 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

2.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2019 fel cofnod cywir.

4 MATERION YN CODI

4.1 Nid oedd angen trafod unrhyw faterion yn codi

5 RÔL A SWYDDOGAETH Y PWYLLGOR SAFONAU

5.1 Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn i aelodau:

- adolygu'r cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Safonau;
- adolygu sut y dylai'r Pwyllgor gyflawni'r swyddogaethau hynny; ac
- archwilio'r gefnogaeth a'r datblygiad sydd eu hangen ar Aelodau yn eu rôl.

5.2 Roedd yr Aelodau yn fodlon â'r cylch gorchwyl diwygiedig ac yn dilyn trafodaeth am y cymorth a'r datblygiad yr oedd eu hangen ar aelodau, cytunwyd bod y Dirprwy Glerc yn darparu hyfforddiant ar y meysydd canlynol yn y cyfarfod nesaf:

- gollyngiadau
- cyfrifoldeb y Pwyllgor o ran cwynion cam 3 y Gwasanaeth
- cynyddu dealltwriaeth o'r chwe phrotocol y mae'r Pwyllgor wedi'u hadolygu dros y flwyddyn ddiwethaf.

5.3 Gofynnodd yr Aelodau hefyd i'r polisi chwythu'r chwiban gael ei gynnwys ar yr agenda nesaf er mwyn iddo gael ei adolygu o ran cyfranogiad yr Awdurdod.

5.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) argymell cylch gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor Safonau i'r Awdurdod gyda'r mân ddiwygiadau diweddaru fel y'u dangosir yn yr adroddiad a gyflwynwyd;**

**(ii) cael hyfforddiant ar y tri mater a nodir uchod yn y cyfarfod nesaf.**

6 PRESENOLDEB YN Y CYFARFOD

6.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i aelodau ei ystyried a mynd i'r afael â phresenoldeb gwael mewn cyfarfodydd gan rai cynghorwyr.

6.2 Nodwyd bod disgwyl i Aelodau'r Awdurdod fynychu rhwng 7 a 10 cyfarfod y flwyddyn yn dibynnu ar y pwyllgorau y maent yn eu mynychu. Mae lefelau presenoldeb aelodau yn amrywio o 0% i 100% o'r cyfarfodydd y cânt eu gwahodd iddynt. Mae methu â mynychu cyfarfodydd yn fater o bwys i'r Awdurdod gan ei fod yn lleihau ei gapasiti ac yn creu bylchau yn nealltwriaeth yr Aelodau a all gymryd amser i'w goresgyn. Nodwyd hefyd nad yw'r "rheol 6 mis" fel y'i gelwir a ddefnyddir mewn cynghorau yn berthnasol i'r Awdurdod Tân ac Achub ac felly mae angen dulliau gwahanol o annog presenoldeb.

6.3 **PENDERFYNWYD cytuno**

**(i) bod llythyr yn cael ei anfon at y rhai â phresenoldeb o dros 50% yn 2019/20 yn diolch iddynt am eu presenoldeb;**

**(ii) bod llythyr gan y Pwyllgor Safonau yn cael ei anfon at Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub gyda chyfradd presenoldeb o 50% ar y mwyaf yn gofyn iddynt wella eu presenoldeb; ac anfon copi o'r llythyr at Arweinydd y Grŵp ac Arweinydd y Cyngor;**

**(iii) bod y llythyr yn (ii) hefyd yn cael ei gopïo i'r Prif Weithredwr gyda llythyr eglurhaol yn esbonio'r rhesymeg;**

**(iv) os na fydd y gyfradd presenoldeb yn gwella erbyn mis Ebrill, cytunwyd i ddirprwyo awdurdod i'r Dirprwy Glerc i drefnu i'r Awdurdod Tân ac Achub gysylltu â'r cyngor cyfansoddol perthnasol yn gofyn am gynrychiolydd newydd.**

7 FFORWM SAFONAU GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU

7.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i rannu cofnodion cyfarfod diwethaf Fforwm Safonau Gogledd a Chanolbarth Cymru ac i enwebu cynrychiolwyr i fynychu ei gyfarfod nesaf.

7.2 Nodwyd bod yr awdurdodau yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru wedi sefydlu fforwm ar gyfer aelodau annibynnol eu Pwyllgorau Safonau. Mae'r fforwm yn rhoi cyfle i aelodau rannu profiadau ac arfer da. Dywedodd Julia Hughes ei bod wedi mynychu'r cyfarfod diwethaf a'i bod wedi'i weld yn ddefnyddiol.

7.3 Yn y Fforwm, cyhoeddodd y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ("Pwyllgor Nolan" gynt) adroddiad ym mis Ionawr 2019 ar Safonau Moesegol Llywodraeth Leol. Isod ceir yr argymhellion a'r awgrymiadau arfer da a allai fod yn berthnasol i'r Awdurdod Tân ac Achub. Nodwyd, er na all yr Awdurdod newid deddfwriaeth, y gallai, serch hynny, fabwysiadu'r argymhellion yn wirfoddol lle nad ydynt eisoes mewn grym.

| **Argymhelliad** | **Sylwadau'r Aelodau** |
|---|---|
| **R6** Cod i'w gwneud yn ofynnol cofrestru rhoddion / lletygarwch dros £50 neu dros £100 y flwyddyn o un ffynhonnell | Cytunwyd i argymell y dylid cynnwys 'o un ffynhonnell' yn y polisi; fodd bynnag, isafswm cofrestru'r Awdurdod ar hyn o bryd yw £25 – Dirprwy Glerc i gasglu adborth ar y swm gan awdurdodau eraill ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf. |
| **R15** Mae gofyn i Awdurdodau Lleol yn flynyddol i gyhoeddi data cwynion a chanlyniadau *(rydym yn gwneud hyn eisoes)* | Mae hyn eisoes ar waith o fewn yr Awdurdod Tân ac Achub. |
| **R23** Mae angen i ALlau sicrhau bod y polisi a'r wefan chwythu'r chwiban yn nodi cyswllt a enwir ar gyfer archwilydd allanol | Bwriad yr Aelodau oedd cytuno â'r argymhelliad hwn ond y dylid ei wneud ar yr un pryd ag adolygu'r polisi. |
| **BP3** ALlau i adolygu'r cod yn flynyddol *(rydym yn gwneud hyn ar sail dreigl bob 5 mlynedd)* | Mae hyn eisoes ar waith o fewn yr Awdurdod Tân ac Achub, ond roedd yr Aelodau o'r farn y dylid ei adolygu bob **3 blynedd**. |
| **BP4** Cod ar gael yn rhwydd mewn safle amlwg ar wefan ALl *(rydyn ni'n gwneud hyn eisoes)* | Mae hyn eisoes ar waith o fewn yr Awdurdod Tân ac Achub. |

| | |
|---|---|
| **BP5** ALl i ddiweddaru cofrestrau o roddion a lletygarwch bob chwarter a'u gwneud yn hygyrch | Dylai'r Gofrestr o Roddion a Lletygarwch fod ar gael ar y wefan fel mater o arfer da. Anfon nodyn atgoffa blynyddol at yr holl Aelodau i'w hatgoffa i ddatgan unrhyw roddion/lletygarwch a dderbynnir. |
| **BP10** Gwefannau'r ALl i gael canllawiau a gwybodaeth glir ar gŵynion *(rydyn ni'n gwneud hyn eisoes)* | Mae hyn eisoes ar waith o fewn yr Awdurdod Tân ac Achub. |
| **BP15** Uwch swyddogion i gyfarfod yn rheolaidd ag arweinwyr grwpiau neu chwipiaid ynghylch safonau. | Awgrymwyd y gallai Cadeirydd y Pwyllgor Safonau gyfarfod â Chadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod, y Prif Swyddog Tân a'r Dirprwy Glerc i drafod yr adroddiad blynyddol cyn ei gyflwyno i gyfarfod llawn yr Awdurdod ym mis Mawrth bob blwyddyn. |

7.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi cofnodion cyfarfod y fforwm ar 24 Mehefin 2019;**

**(ii) nodi sylwadau'r aelodau a nodir uchod mewn perthynas â'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus;**

**(iii) bod y Dirprwy Glerc yn hysbysu'r aelodau o ddyddiad cyfarfod nesaf y Fforwm ac i'r aelodau benderfynu pwy sy'n bresennol ar sail argaeledd.**

8 CYDBWYLLGOR(AU) SAFONAU YNG NGOGLEDD CYMRU

8.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i aelodau ystyried y materion a'r opsiynau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu un neu fwy o Gydbwyllgorau Safonau ar draws Gogledd Cymru.

8.2 Nodwyd bod wyth Pwyllgor Safonau ar draws yr awdurdodau yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd. Mae nifer cynyddol o aelodau sy'n gwasanaethu ar fwy nag un awdurdod a all helpu i leihau cost datblygu/hyfforddi (neu sicrhau'r budd mwyaf posibl ohono). Fodd bynnag, mae'n ddeddfwriaethol bosibl cael cydbwyllgor sy'n gwasanaethu dau awdurdod neu fwy. Roedd yr adroddiad yn cynnwys dadansoddiad o'r materion a'r opsiynau ar gyfer un neu fwy o gydbwyllgorau o'r fath.

8.3 Trafododd yr Aelodau y posibilrwydd o ymuno â phwyllgor safonau awdurdod parc cenedlaethol neu gysylltu â chyngor cyfansoddol y Clerc.

8.4 **PENDERFYNWYD gohirio trafodaeth ar y mater hwn hyd nes y ceir rhagor o wybodaeth am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio llywodraethu o fewn yr ATAau. Yn y cyfamser, gofynnodd yr aelodau i'r Dirprwy Glerc wneud ymholiadau gydag awdurdodau'r**

**parc cenedlaethol i weld a oes unrhyw rinwedd neu ddiddordeb mewn ystyried y cysyniad o Gydbwyllgor Safonau.**

9 LLYFR ACHOSION OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

9.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i rannu'r ddau lyfr achosion moesegol diweddaraf a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW).

9.2 Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn ystyried cwynion bod Aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru wedi torri'r Cod Ymddygiad (y Cod).

9.3 Mae'r rhifynnau diweddaraf a gyhoeddwyd yn tynnu sylw at y ffaith bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi ymchwilio i 17 o gŵynion yn ystod y cyfnod Ebrill i Fedi 2019, ac o'r rhain arweiniodd
8 ymchwiliad at ganfyddiadau o ddim tystiolaeth o dorri rheolau, arweiniodd 5 at ganfyddiadau nad oedd angen gweithredu, arweiniodd 3 at atgyfeiriadau at y Pwyllgorau Safonau perthnasol ac arweiniodd 1 at atgyfeiriad at PDC.

9.4 **PENDERFYNWYD nodi canfyddiadau'r cwynion hynny yr ymchwiliodd yr Ombwdsmon iddynt yn ystod y cyfnod mis Ebrill i fis Medi 2019, fel y'u crynhoir yn rhifynnau 21 a 22 o'r Llyfrau Achosion Cod Ymddygiad.**